

HAY FESTIVAL

imagine the world

DATGANIAD NEWYDDION: Dydd Mawrth 24 Ebrill 2018

Gwersi llên! Gŵyl y Gelli yn cynnig gwasanaeth ffrydio am ddim i ysgolion

Bydd [Gŵyl y Gelli Cymru](#) yn cael ei ffrydio'n fyw i ysgolion ledled y DG ar ddydd Iau 24 Mai (CA2) a dydd Gwener 25 Mai (CA3 a 4), yn rhan o brosiect newydd i ehangu mynediad i ddigwyddiadau'r Gŵyl wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Gŵyl y Gelli.

Yn gymysgedd o berfformiadau byw, gweithdai a straeon, mae Diwrnodau Ysgolion Gŵyl y Gelli yn cynnwys sesiynau i ddisgyblion CA 2, 3 a 4 yng nghwmni **Julian Clary**, **Cressida Cowell**, **Laura Dockrill**, **Eoin Colfer**, **David Almond**, **Patrice Lawrence**, y beirdd **Joe Coelho** ac **Eric Ngalle Charles**, y storiwr **Daniel Morden**, yr arbenigwr ar fathemateg **Anne-Marie Imafidon**, cyflwynydd y BBC, **Katie Thistleton**, a'r darlledwr a'r llysgennad i bobl ifanc, **Gemma Cairney**.

Bydd deuddeg sesiwn yn cael eu ffrydio yn rhad ac am ddim, yn fyw bob dydd, i ysgolion nad oes modd iddyn nhw fynychu safle'r Gŵyl yn y cnawd. Mae'r llif byw hwn, ledled y DG, yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus yng Nghymru y llynedd.

A'r cynllun wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a Sefydliad Gŵyl y Gelli, gall ysgolion y wladwriaeth fynychu Diwrnodau Ysgolion Gŵyl y Gelli yn rhad ac am ddim hefyd. Llynedd, cymrodd 7,140 o ddisgyblion, o 105 o ysgolion cynradd a 78 o ysgolion uwchradd, ran yn y digwyddiadau.

Gall athrawon weld amserlen lawn y ffrydiau, lawrlwytho adnoddau addysgol a chofrestru ar gyfer y ffrydiau byw rhad ac am ddim yn hayfestival.org/livestream.

Dywedodd Aine Venables, Rheolwr Addysg Gŵyl y Gelli: "Mae cynnig cyfleoedd ysbrydoledig i bobl ifanc yn rhan greiddiol o genhadaeth yr Gŵyl yng Nghymru a ledled y byd. Byddwn yn croesawu miloedd o ddisgyblion a myfyrwyr o bob oed i'r Gŵyl y Gelli 2018, ac yn rhoi cyfle iddynt gwrdd ag awduron, perfformwyr a gwyddonwyr yn rhad ac am ddim. Bydd ehangu'r cyfleoedd hyn ar-lein yn caniatáu i fwy fyth o bobl ifanc fwynhau hud y Gelli."

Dywedodd yr Ysgrifennydd Addysg, Kirsty Williams: "Dw i'n awyddus i bob un o'n pobl ifanc gael y cyfle i werthfawrogi grym, harddwch a dyfnder geiriau. Bydd Rhaglen Ysgolion Gŵyl y Gelli yn rhoi cyfle i ddysgwyr o bob cwr o Gymru weld rhai o'r awduron a'r perfformwyr mwyaf talentog ac ysbrydoledig. Mae'r digwyddiadau hyn yn cyffroi'r dychymyg a dw i'n falch bod Llywodraeth Cymru yn gallu helpu'r Gŵyl i ddatblygu'r hyn sydd eisoes yn rhaglen lwyddiannus iawn. Fe hoffwn i annog pob ysgol i weld a fedran nhw gymryd rhan er mwyn helpu dysgwyr i fwynhau deuddydd sydd yn sicr o fod yn gwbl hudolus."

Mae Gŵyl y Gelli (24 Mai - 3 Mehefin) yn rhoi llwyfan i'r syniadau diweddaraf yn y celfyddydau, y gwyddorau a materion cyfoes, ac yn cynnig amserlen gyfoethog o gerddoriaeth, comedi ac adloniant ar gyfer pobl o bob oed. Mae'n cynnwys dros 600 o awduron, gwneuthurwyr polisi byd-eang a rhai o arloeswyr mwyaf arwyddocaol y byd mewn 800 o ddigwyddiadau dros gyfnod o 11 diwrnod. Mae llond ffurfafen o sêr llenyddol yn dod at ei gilydd i lansio gwaith newydd ac mae'r rhaglenni HAYDAYS a #HAYYA mwyaf erioed yn gyfle i ddarllenwyr ifanc gyfarfod â'u harwyr ac i ddechrau creu eu hunain.

Mae mynediad i safle'r Gŵyl yn rhad ac am ddim, ac fe gynhelir digwyddiadau â thocynnau mewn 10 o bebyll. Mae yna ystod o safleoedd i'w harchwilio, gan gynnwys Siop Lyfrau'r Gŵyl; cwrt HAYDAYS;

HAY FESTIVAL

imagine the world

Gardd Wyllt Gŵyl y Gelli; gweithdai creadigol ym Mhabell Make and Take, Cwt y Sgriblwyr, Y Ciwb a'r Babell Fwyd; mae yna stondinau marchnad, caffis a bwytaï hefyd.

Mewn oes lle mae cynnwys yn fwy cryno nag erioed ac argymhellion yn cael eu pennu gan algorithmau, mae Gŵyl y Gelli yn hyrwyddo darganfyddiadau ar sail sylwedd. Mae'n cynnig llwyfan ar gyfer sgysiaï hyddysg a chyfleoedd di-ri i chi gael eich ysbrydoli.

Mae'r Gŵyl yn trefnu rhaglen eang o waith addysgol sy'n cefnogi awduron y dyfodol a chynulleidfaoedd chwilfrydig o bob oed – mae Gŵyl y Gelli Cymru yn agor â dau ddiwrnod rhad ac am ddim i ysgolion, mae Prosiect y Bannau yn gyfle i fyfyrwyr 16-18 oed ddysgu gan awduron byd-enwog, gall myfyrwyr addysg bellach gael tocynnau am ddim, ac mae Hay Compass yn lle arbennig i ddysgu a darganfod, sy'n cynnwys cyfle i glywed siaradwyr ysbrydoledig yn rhad ac am ddim.

Diwrnodau Ysgolion Gŵyl y Gelli Arolwg o'r rhaglen

Ar ddydd Iau 24 Mai - Diwrnod Cyfnod Allweddol 2 – bydd y rhaglen yn cynnwys comedi, straeon, anturiaethau, hanes a dathliad o bynciau STEM.

Bydd sŵn chwerthin yn ysgwyd y pebyll wrth i **Andy Stanton** sôn am ei gyfres wobrwyl *Mr Gum*, a *Natboff! One Million Years of Stupidity*; ac fe fydd y digrifwr a'r awdur **Julian Clary** yn ymuno â'r darlunydd **David Roberts** i gyflwyno eu cyfres antur boblogaidd nhw *The Bolds*.

Bydd yna gyfle i fwynhau storïau llafar a gweithdai gyda'r bardd **Joe Coelho** a *The Sad Tale of the Fly ... Splatt!* sy'n gyfuniad o gerddi o'i gyfrol o farddoniaeth, a enwebwyd gan Wobr Carnegie, *Overheard in a Tower Block*, a gweithgareddau o'i lyfr ffeithiol cyntaf *How to Write Poems*. Bydd enillydd Medal Ddrama Gŵyl y Gelli yn 2017, **Daniel Morden**, yn cyflwyno *Secret Tales from Wales* trwy gyfrwng darlenniadau angerddol o straeon hynafol, ac fe fydd y storïwr a'r awdur **Richard R. O'Neill** yn cynnig gweithdy ysgrifennu rhyngweithiol i'ch harwain 'o'r cyffredin i'r anghyffredin'.

Bydd yna anturiaethau anhygoel wrth i **Cressida Cowell** lansio fersiwn clawr papur ei llyfr poblogaidd, *The Wizards of Once*, mewn digwyddiad arbennig; bydd yr awdur **David Solomons** yn sôn am archarwyr a dihirod wrth iddo gyflwyno *My Brother is a Superhero* a *My Evil Twin is a Supervillain*; ac fe fydd y darlunydd **Tony De Saulles** yn sôn am *Bee Boy: Clash of the Killer Queens*.

Bydd pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) yn cael sylw blaenllaw wrth i'r mathemategydd o fri **Anne-Marie Imafidon** ymuno â'i chyd-STEMettes i ysbrydoli merched ifanc i ymwneud â'r pynciau hynny ac fe fydd yr awduron **Alex Frith**, **Alice James** a **Jerome Martin** yn sôn am eu llyfr nhw *100 Things To Know About Space*.

Bydd cyflwynydd y BBC **Katie Thistleton** yn sôn am iechyd meddwl a thyfu i fyny, gan gynnig cipolwg ar hanesion o'i bywyd ei hun ac fe fydd **Kate Pankhurst** yn sôn am *Great Women Who Made History* - mae'r menywod hynny'n amrywio o arweinydd y swffragetiaid, Flora Drummond, i frenhines y môr-ladron, Sayidda Al-Hurra.

Ar ddydd Gwener 25 Mai - Cyfnodau Allweddol 3 a 4 - mae'r rhaglen yn cynnwys gweithdai, storïau ysbrydoledig a gwir, hanes a ffuglen newydd rymusol.

Bydd yna ysbrydoliaeth i bobl ifanc wrth i'r bardd, yr awdur a'r artist **Laura Dockrill** hyrwyddo hunan-fyneigiant yn ei llyfr newydd *Big Bones*; bydd y darlledwr a llysgennad pobl ifanc **Gemma Cairney** yn

HAY FESTIVAL

imagine the world

cyflwyno ei llyfr ysbrydoledig newydd hithau, *Open Your Heart, Learn to Love Your Life and Love Yourself*; ac fe fydd y gohebydd rhyfel, **Sue Turton**, yn rhannu cyfrinachau ar gyfer amharu ar y system, gorfodi newidiadau a dyfeisio ymgyrchoedd i newid y byd gyda chymorth ei phegyn cymorth gwleidyddol arbennig.

Mae yna hanesion go iawn i ysbrydoli cynulleidfaoedd – gan y bardd, yr awdur a'r dramodydd **Eric Ngalle Charles**, er enghraifft, a fydd yn adrodd ei hanes dyrchafol yntau am y modd y bu i lenyddiaeth ac ysgrifennu creadigol ei helpu i oresgyn y fasnach bobl a bywyd ar y strydoedd. Bydd y tîm sy'n gyfrifol am nofelau graffig *Artemis Fowl* - yr awduron **Eoin Colfer**, **Andrew Donkin** a'r arlunydd **Giovanni Rigano** – yn ein harwain ar daith ysgubol ar hyd y cyfandiroedd yn *Illegal*.

Bydd **Anne-Marie Imafidon** yn dychwelyd gyda'i chyd-STEMettes i ysbrydoli menywod ifanc i ymwneud â gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg.

Bydd yna le blaenllaw i hanes hefyd wrth i **Sally Nicholls** nodi canmlwyddiant Deddf Cynrychiolaeth y Bobl yn 1918, ac adrodd hanes ymgyrch y swffragetiaid o safbwynt tair merch ifanc o'r cyfnod. Ac fe fydd yr hanesydd gwisgoedd **Lucy Adlington** yn trafod ffasiwn, ffabrigau a gwnïo yng nghyd-destun yr Ail Ryfel Byd, i ddathlu cyhoeddi ei nofel newydd *The Red Ribbon*.

Bydd **Bali Rai**, awdur *Tales From India a Web of Darkness*, yn gofyn a yw empathi ar drai yn y Brydain fodern; bydd awdur gwobrwyol *Skellig*, **David Almond**, yn cyflwyno ei nofel newydd hudolus, *The Color of the Sun*; bydd yr awdur arobryn **Patrice Lawrence** yn cyflwyno'i nofel newydd *Indigo Donut*; ac fe fydd y bardd-rapiwr, **Aneirin Karadog** yn gwahodd y gynulleidfa i gymryd rhan mewn perfformiad aml-ffurf ac amlieithog o rap a barddoniaeth.

GŵYL Y GELLI 2018 Crynodeb o'r brif raglen ...

Mae'r nofelwyr gwobrwyol a fydd yn trafod eu gwaith yn cynnwys **Margaret Atwood**, **Ian McEwan**, **Alexander McCall Smith**, **Asne Seierstad**, **Anuradha Roy**, **Colm Tóibín**, **Jilly Cooper**, **Andre Aciman**, **Maggie O'Farrell**, **Rose Tremain**, **Salman Rushdie**, **Marian Keyes**, **Lionel Shriver**, **Kamila Shamsie**, **Alan Hollinghurst**, **Jojo Moyes**, **Rachel Cusk**, **Jack Zipes**, **Philip Pullman**, **Gail Honeyman**, **Ruth Jones**, **Simon Mayo**, **Juan Gabriel Vasquez** a **Javier Cercas**. Bydd y beirdd **Tishani Doshi**, **Owen Sheers** a **Mererid Hopwood** yn ymuno â **Margaret Atwood** mewn digwyddiad arbennig i goffáu Cadoediad 100.

Mae'r sgysiaid am ryngwladoliaeth, democratiaeth a chadw heddwch yn cynnwys arweinwyr byd, gwneuthurwyr polisi a newyddiadurwyr gwobrwyol, yn eu plith: y strategydd gwleidyddol **Donna Brazile**, Ysgrifennydd Cyffredinol Gweinyddiaeth Materion Tramor Ffrainc **Maurice Gourdault Montagne**, awdur *Fire and Fury*, **Michael Wolff**, **Sarah Churchwell**, **A. C. Grayling**, **Gordon Brown**, **David Miliband**, **Adrian Bradshaw** o Fyddin Prydain, cyn Brif Weinidog Israel, **Ehud Barak**, **Shashi Tharoor** a'r heddychwyr **Scilla Elworthy**. Bydd y trafodaethau am gydraddoldeb rhyw a hil ym Mhrydain heddiw yn cynnwys **Akala**, **Afua Hirsch**, **Rose McGowan**, **James O'Brien**, **Laura Bates**, **Helen Pankhurst**, **Germaine Greer** a **Robert Webb**.

Byddwn yn ail-lunio'r gorffennol gyda haneswyr blaenllaw, a'r rheiny'n cynnwys **Anthony Beevor**, **Helen Rappaport**, **Sujit Sivasundaram**, **Alison Weir**, **Melvyn Bragg**, **David Olusoga**, **Simon Schama**, **Bettany Hughes**, **Emily Wilson** ac **Amy Lamé**. Byddwn yn gofyn cwestiynau pwysig am addysg hefyd wrth i **Amanda Spielman** drafod Ofsted a dyfodol addysg.

HAY FESTIVAL

imagine the world

Bydd iechyd a lles ar flaen y meddwl mewn sesiynau gyda **Ruby Wax, Suzanne O'Sullivan, Johann Hari, Edmund de Waal, Daniel Davis**, llysgennad Cymdeithas Alzheimer, **Wendy Mitchell**, a **Bryony Gordon**. Ac fe fydd **Nigel Shadbolt, Ella McPherson, Philip Ball, Akram Khan, Marcus du Sautoy, Richard Dawkins, Elisa Passini** ac **Anne-Marie Imafidon** yn trafod y syniadau diweddaraf ym maes STEM.

Mae **Hay on Earth** yn archwilio arloesi cynaliadwy a dyfodol ffermio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **Michael Gove**, ac arweinydd cynaliadwyedd Google, **Kate Brandt**. Byddwn yn teithio ledled y byd yng nghwmni ysgrifenydd natur a thaith, a'r rheiny'n cynnwys **Monty Don, Horatio Clare, Patrick Barkham, Bear Grylls, Ursula Martin, Andy Kirkpartick** a **Chris Bonington**.

Byddwn yn croesawu detholiad o sêr y llwyfan a'r sgrin hefyd, gan gynnwys **Andrew Davies** (*Les Misérables*), yr actorion **Jim Broadbent** a **Simon Russell Beale** a chast ardderchog **Letters Live**. Bydd yna gomedi gan **Russell Kane, Shazia Mirza, David Baddiel, Dara O'Briain** a **Bridget Christie**, a cherddoriaeth gan **Jake Bugg, Laura Mvula, Les Amazones d'Afrique** a **Gabrielle Aplin**. Bydd **Goldie** hefyd yn ymuno â ni i gyflwyno ei hunangofaint, *All Things Remembered*.

Mae sesiynau rhad ac am ddim PABELL Y BBC yn cynnwys recordiadau byw o brif raglenni teledu a radio'r BBC ac fe fyddant yn cynnwys **Mary Beard, David Olusoga, Marian Keyes, Åsne Seierstad, Anuradha Roy, Kamila Shamsie, Sarah Churchwell, Colm Tóibín, Brian Hill, Akala, Dan Cruickshank, Don McCullin, Emily Wilson, David Christian, Jonathan D Quick, Simon Russell Beale, Javier Cercas, Juan Gabriel Vasquez, Dr Rowan Williams, a Helen Mort**. Bydd digwyddiadau ychwanegol yn cynnig cipolwg ar y dramâu a'r rhaglenni dogfen diweddaraf, ac yn cynnwys cyngorion gan rai o'n prif wneuthurwyr ffilm, cyflwynwyr a chynhyrchwyr.

Mae digwyddiadau HAYDAYS a #HAYYA yn cynnwys cyfraniadau gan **Ed Vere, Michael Morpurgo, Judith Kerr, David Walliams, Beverley Naidoo, Jacqueline Wilson, Cressida Cowell, Lucy Worsley, Lauren Child, Katherine Rundell, Juno Dawson, Holly Bourne, Patrick Ness, Patrice Lawrence** ac **Alex Wheatle**. Bydd gweithdai'n cyfuno ysgrifennu creadigol, darlunio, tecstilau, codio, dawnsio, drymio ac animeiddio, ac fe fydd RSPB Cymru ac Ysgol Rooted Forest yn mynd â phobl ifanc allan i'r awyr agored.

Fe gewch chi'r hollol newyddion diweddaraf am □ yl y Gelli yn ein cylchlythyr, [fan hyn](#), neu gallwch ddilyn:

Twitter: @hayfestival / @hayfestival_esp

Facebook: hayfestival / hayfestivalimaginaelmundo

Instagram: @hayfestival

www.hayfestival.org

#HayFestival #G□ yYGelli

DIWEDD

Nodiadau i olygyddion

I gael DELWEDDAU a GWYBODAETH BELLACH neu i drefnu CYFWELIADAU, cysylltwch â chyfarwyddwr cyhoeddusrwydd G□ yl y Gelli, Christopher Bone – christopher@hayfestival.org / 07506 522540.

HAY FESTIVAL

imagine the world

Ynglŷn â Gŷyl y Gelli

www.hayfestival.org

Mae Gŷyl y Gelli yn dod â llenorion a darllenwyr at ei gilydd i rannu straeon a syniadau mewn digwyddiadau cynaliadwy ledled y byd. Mae'r gwyliau'n ysbrydoli, yn archwilio ac yn difyrru, ac yn gwahodd cyfranogwyr i ddychmygu'r byd fel y mae ac fel y gallai fod.

Mae enillwyr Gwobr Nobel a nofelwyr, gwyddonwyr a gwleidyddion, haneswyr a cherddorion yn siarad â chynulleidfaoedd mewn proses ddeinamig o gyfnewid syniadau. Mae sgwrs fyd-eang yr ŷyl yn rhannu'r syniadau diweddaraf am y celfyddydau a'r gwyddorau gyda chynulleidfaoedd chwilfrydig mewn digwyddiadau byw, mewn print ac ar-lein. Mae Gŷyl y Gelli hefyd yn trefnu rhaglenni eang o waith addysgol sy'n cefnogi awduron y dyfodol a chynulleidfaoedd diwylliedig a brwdfrydig o bob oed.

Ym 1987, cafodd y syniad am ŷyl ei ffurfio mewn cegin yn Y Gelli. Ddeng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach, mae'r cyfuniad unigryw o sgwrsiau ac adloniant i bobl o bob oed wedi teithio i 30 o leoliadau, o dref hanesyddol Cartagena yn Colombia i leoliadau dinesig ym Mheriw, Mecsico, Sbaen a Denmarc. Mae'r sefydliad bellach yn cyrraedd cynulleidfa fyd-eang o gannoedd o filoedd bob blwyddyn ac yn parhau i dyfu ac arloesi, gan greu partneriaethau a mentrau gyda rhai o'r cyrff celfyddydol a chyfryngol mwyaf blaenllaw, gan gynnwys y BBC, Adran Addysg Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, CCC, y Cyngor Prydeinig, Oxfam, TATA, Cyfeillion Gŷyl y Gelli, Baillie Gifford, Ynni Da, NERC a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Yr awdur a'r actor nodedig **Stephen Fry** yw Llywydd y sefydliad; **Peter Florence** yw'r Cyfarwyddwr; ac mae **Caroline Michel**, Prif Swyddog Gweithredol asiantaeth dalent Peters Fraser & Dunlop, yn Gadeirydd Bwrdd yr ŷyl.

I ddod:

- eeeeeeeeeee Gŵyl y Gelli, Cymru (24 Mai - 3 Mehefin 2018)
- Gŷyl y Gelli, Querétaro, Mecsico (6-9 Medi 2018)
- Gŷyl y Gelli, Segovia, Sbaen (20-23 Medi 2018)
- Gŷyl y Gelli, Arequipa, Periw (8-11 Tachwedd 2018)
- Penwythnos y Gaeaf Gŷyl y Gelli, Cymru (22-25 Tachwedd 2018)
- Gŷyl y Gelli, Cartagena de Indias, Colombia (31 Ionawr-3 Chwefror 2019)

